RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Llun, 15 Mawrth, 2021

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Mawrth, 16 Mawrth, 2021. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Mawrth, 23 Mawrth, 2021. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Mercher, 24 Mawrth, 2021.

Presennol: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), Cynghorydd R.Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Dafydd Roberts

Ymddiheuriadau: Dim

(10:00 y. b. tan 11.05 y. b.)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**2 Adroddiad Gwrthwynebu – Moderneiddio Ysgolion Ardal Llangefni - Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig** Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
PENDERFYNIAD	**Penderfynwyd cymeradwyo'r cynnig gwreiddiol, sef i gynyddu capasiti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn.**
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	**Yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion, dod i benderfyniad ar ôl ystyried gwrthwynebiadau**
A OES MODD EI ALW I MEWN?	**Oes**